EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf
2024

# MAES CARAFANAU A GWERSYLLA TEULUOL

# RHEOLAU AC AMODAU

Mehefin 2024

**MAES CARAFANAU A GWERSYLLA TEULUOL - RHEOLAU AC AMODAU 2024**

**1. Cyffredinol**

a) Gweithredir y Maes Carafanau a Gwersylla gan yr Eisteddfod Genedlaethol, a thrwy gwblhau'r broses archebu, a thalu'r swm penodol, byddwch yn dod yn aelod o Gymdeithas Carafanwyr Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Nid oes gennych hawl i ail-osod unrhyw elfen o'r gwasanaeth y byddwch yn ei archebu.

b) Mae cydymffurfio â rheolau ac amodau y Maes Carafanau a Gwersylla yn amod o'r aelodaeth. Gall diffyg cydymffurfiaeth arwain at derfynu aelodaeth a all gynnwys atal mynediad i unrhyw safle neu weithgaredd a ddarperir gan yr Eisteddfod.

c) Ni dderbynnir cyfrifoldeb gan yr Eisteddfod Genedlaethol am niwed personol, niwed neu golled i eiddo, oni ellir profi bod yr Eisteddfod Genedlaethol yn gyfrifol drwy weithred neu anwaith.

ch) Rhaid i bob carafán fod â chyfleuster toiled cemegol, a darperir mannau pwrpasol i wagio'r toiledau hyn – ni ddylid arllwys unrhyw hylif ar wyneb y tir.

d) Caniateir anifeiliaid anwes ond disgwylir i'r perchennog gadw rheolaeth arnynt gydol y cyfnod gan gynnwys clirio i fyny ar eu holau.

dd) Darperir y Maes Carafanau a Gwersylla ar gyfer teuluoedd ac oedolion. **Cymhellir yn gryf i grwpiau o fechgyn neu ferched ddefnyddio cyfleusterau gwersylla MaesB.**

**2. Meddiant**

a) Bydd y Maes Carafanau a Gwersylla ar agor o 14:00 Dydd Iau 1 Awst hyd 14:00 Dydd Sul 11 Awst 2024. **Nid oes modd derbyn carafanwyr cyn y dyddiad cyntaf. Os fyddwch wedi llogi carafan, rhaid gwneud trefniant â'r perchennog i'w chasglu wedi 17:00 ar y Sul olaf**.

b) Gofynnwn i chi lenwi'r ffurflen gofrestru sy'n rhestru pawb a fydd yn aros yn eich carafán / pabell . Bydd y ffurflen hon yn cael ei hanfon atoch mewn dolen i dudalen we ynghyd â manylion eraill am eich safle.

c) Os ydych angen cymorth, cyngor neu os oes gennych unrhyw anhawster tra ar y safle, cysylltwch ag **Arolygwyr y Maes Carafanau**. Bydd eu Swyddfa ar agor o **08:00 – 21:00** ar gyfer ymholiadau cyffredinol / lleoli ayb, a bydd swyddogion diogelwch yn bresennol tu allan i'r oriau hyn ar gyfer argyfwng yn unig.

ch) Ni chaniateir i berson dan 18 oed aros mewn carafán / pabell heb arolygaeth oedolyn.

d) Ni chaniateir i fwy o bobl aros mewn carafán / pabell na'r hyn y cynlluniwyd hi ar ei chyfer.

dd) Darperir glynion pwrpasol i'w gosod ar eich cerbyd / carafán / pabell, ac mae'n rhaid eu harddangos drwy gydol yr amser y byddwch ar y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol.

e) Lleolir y carafanau a'r pebyll gan Arolygwyr y Maes Carafanau, a dylid dilyn unrhyw gyfarwyddyd a roddir ganddynt. **Ni leolir unrhyw garafán / pabell ar ôl 21:00 a bydd penderfyniad yr Arolygwyr i leoli neu beidio yn derfynol.**

**3. Safle**

a) Lleolir y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol ar gaeau i'r gogledd o faes yr Eisteddfod.

b) Dosberthir y safleoedd yn nhrefn derbyn ceisiadau. Fe'ch anogir felly i anfon eich cais yn brydlon os am eich lleoli mor agos â phosibl i fynedfa gerdded am y Maes.

c) i) Os ydych am eich lleoli mewn grŵp (hyd at 12) nodwch enw'r grŵp wrth gwblhau eich archeb dros y we.

ii) Ni ellir lleoli pabell mewn grŵp o garafanwyr oni bai eich bod yn archebu a thalu am safle carafan.

ch) Ni ellir newid manylion aelodaeth grŵp wedi **1 MEHEFIN 2024**. Cysylltwch â tocynnau@eisteddfod.cymru am gyfarwyddiadau pellach.

d) Os ydych yn fethedig neu os oes gennych anabledd neu gyflyrau meddygol sydd yn achosi problemau cerdded, yna nodwch hynny wrth archebu eich safle.

dd) Gosodir y Maes Carafanau yn unol â'r canllawiau ar gyfer safleoedd carafanau dros dro - lleolir pegiau bob 11 medr, **a dylid gosod cornel flaen chwith y garafán dros y peg (wrth edrych o'ch cerbyd)**, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygwyr.

e) Gellir gosod adlen **neu** un babell fach (i un neu dau) ger eich carafan, ond rhaid cadw o fewn ffiniau eich safle gan adael o leiaf 3 medr rhwng y garafan nesaf. Ni ellir gosod pabell fawr (pabell deulu) yn gyfochrog a safle carafan ac eithrio eich bod yn archebu a thalu am safle carafán ychwanegol. **Ni chaniateir gosod pabell na gasibo tu ôl i garafan**.

f) i) **Carafan**: Rhaid cadw o fewn eich safle (11m x 10m), a chadw o leiaf 3 medr rhwng eich carafan neu adlen a'r garafán neu adlen nesaf.

ii) **Pabell**: Rhaid i chi gadw o fewn eich safle (5m x 7m), a chadw o leiaf 4 medr rhwng eich pabell a'r babell nesaf. Os ydych yn dymuno gofod ychwanegol i'r uchod, rhaid archebu safle ychwanegol. Ni chaniateir parcio cerbyd wrth ymyl y babell, rhaid defnyddio'r maes parcio sydd yn ymyl.

**GWEITHREDIR Y RHEOL HON YN DDIAMOD**, a bydd gofyn i chi symud unrhyw wrthrych fydd yn anghydffurfio.

ff) Rhaid gwneud cais am safle carafan ar gyfer cerbydau gwersylla (campervans).

**4. Tâl**

a) **Carafan; carafan ac adlen, cerbyd gwersylla neu garafan modur**: Os am archebu safle ar y Maes Carafanau rhaid talu am y cyfnod llawn o 10 noson sef **£345** (£350 os yn talu. mewn rhandaliadau).

b) **Pabell**: Os am archebu safle ar y Maes Gwersylla rhaid talu am y cyfnod llawn o 10 noson sef **£180** (£185 mewn rhandaliadau). Lleolir pebyll mewn ardal yn gyfochrog i'r Maes Carafanau gyda pharcio gerllaw.

c) Os tynnir cais yn ôl, cedwir canran o'r tâl ar raddfa lithren (gweler isod). Ni ddylech wneud cais am safle ar y Maes Carafanau a Gwersylla os nad ydych yn sicr bod gennych garafán neu babell.

25% - Os yn tynnu cais yn ôl rhwng 1 Chwefror a 30 Ebrill 2024
50% - Rhwng 1 Mai a 31 Mai 2024
75% - Rhwng 1 Mehefin a 30 Mehefin 2024
100% - Wedi 1 Gorffennaf 2024

ch) Mi fyddwn yn anfon cydnabyddiaeth ar e bost fod eich cais wedi ei dderbyn (gwiriwch eich ffolder spam os na fydd wedi cyrraedd eich mewnflwch!). Er gwybodaeth, bydd taliadau yn ymddangos ar eich cyfrif banc fel pryniant 'Eisteddfod Genedl' os am brawf pellach fod eich cais wedi ei dderbyn a'i brosesu.

**5. Trydan**

a) Ni chaniateir defnyddio generaduron, na storio petrol / disel ar y Maes Carafanau.

b) Darperir trydan i bob safle carafan gan yr Eisteddfod yn gynwysedig yn y pris. Cyfyngir y cyflenwad trydan i **10 amp** ac os byddwch yn gorlwytho'r cyflenwad, torrir y cysylltiad yn awtomatig. Gellir ailosod y swîts, ond os byddwch yn gorlwytho yn ormodol, dad-gysylltir y cyflenwad yn gyfan gwbl. Yn yr achos hwnnw ni roddir unrhyw ad-daliad.

Nodwch nad ydi'r cyflenwad yma yn addas ar gyfer gwefru ceir trydan.

c) Does dim modd gosod cyflenwad trydan mewn pabell, oni bai eich bod yn archebu ac yn talu am safle carafan gan ddarparu plwg pwrpasol a safonol (gyda theclyn RCBO) ar gyfer cysylltu â'r cyflenwad.

ch) Er mwyn diogelwch pawb, gwnewch yn siŵr bod offer trydanol yn cydymffurfio â'r holl safonau a rheoliadau cyfredol. Mae'r Eisteddfod yn gyfrifol am ddiogelwch trydanol hyd at y pwynt cysylltu, felly eich cyfrifoldeb chi yw ceblau, plygiau a phob offer sy'n gysylltiedig â hwy.

d) Os byddwch yn cael unrhyw drafferth gyda'r cyflenwad trydan, mae'n holl bwysig eich bod yn adrodd **<u>yn syth</u>** i Swyddfa'r Maes Carafanau er mwyn trosglwyddo'r neges at beirianwyr trydannol yr Eisteddfod.

**6. Gwasanaethau**

a) Bydd yr unedau toiledau a chawodydd ar agor rhwng 06:30 a 23:00. Bydd un bloc o doiledau a/neu doiledau cemegol wrth yr ardal wersylla ar agor 24 awr y dydd.

b) Darperir Uned Cawod a Thoiled hygyrch gyda sinc isel ar y Maes Carafanau a Gwersylla.

c) Erfynnir am eich cymorth a chydweithrediad i geisio cadw'r toiledau a'r cawodydd yn lân. Darperir bwcedi a mop a gofynnir i chwi barchu'r cyfleusterau er budd eich cyd breswylwyr.

ch) Gwneir pob ymdrech i ddarparu y cawodydd gorau posibl i breswylwyr. Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad os yn bosibl i wneud defnydd o'r cawodydd ar adegau llai prysur o'r dydd.

dd) Darperir cyfleuster ar gyfer golchi llestri i'r gwersyllwyr.

**GWASTRAFF - LLEIHAU, AILDDEFNYDDIO A PHARCHU**

Er mwyn gwneud yr Eisteddfod yn ŵyl cynaliadwy, gofynnwn ichi osgoi eitemau defnydd un-tro a dewis opsiynau y gellir eu hailddefnyddio lle bo hynny'n bosibl i'n cynorthwyo i edrych ar ôl y tir a ddefnyddir gan yr Eisteddfod.

**EICH ADDUNED**

Gofynnwn i bawb sy'n dod i'r ŵyl gydymffurfio â'n haddewid i adael dim ar ôl:

- Byddaf yn defnyddio'r biniau ailgylchu yn gywir gan beidio taflu ysbwriel.
- Byddaf yn mynd â'm holl eiddo adref gyda mi, gan gynnwys yr holl offer gwersylla.
- Byddaf yn rhoi fy ngwastraff yn y bagiau bin a ddarperir gan Swyddfa'r Safle ac yn defnyddio'r cyfleusterau ailgylchu yn gywir.
- LLENWI NID LLUCHIO: Byddaf yn defnyddio potel dŵr y gellir ei hailddefnyddio ac osgoi pecynnau plastig defnydd un-tro.

**7. Ymddygiad a Rheolaeth**

a) Cyfrifoldeb rhieni yw gofalu a goruchwylio ymddygiad a diogelwch eu plant.

b) Os ydych am gyflwyno cwyn neu bryder, cysylltwch ag Arolygwyr y Maes Carafanau yn gyntaf gan ei bod yn bwysig eu bod yn cael cyfle i ddatrys unrhyw sefyllfa yn ystod eich arhosiad. Os na cheir datrysiad boddhaol i'r mater, cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod.

c) **Gofynnir i chi beidio â chadw sŵn afresymol, yn enwedig ar ôl hanner nos**. Os derbynnir cwynion am sŵn, rhoddir dau rybudd swyddogol, ac yna gweithredir rheol 7(ch).

ch) Os bydd unrhyw un ar y safle yn anwybyddu y rheolau ac yn parhau i darfu ar fwynhad pobl eraill yn dilyn rhybuddion swyddogol, gall yr Eisteddfod derfynu'r denantiaeth yn ddirybudd ac ar unwaith neu gymryd camau gweithredol yn ôl yr angen. Os terfynir tenantiaeth wrth weithredu'r rheol hon, ni ad-delir unrhyw dâl.

**8. Iechyd a Diogelwch**

a) Fel y gall pawb fwynhau eu harhosiad ar y Maes Carafanau, dilynwch gyfarwyddiadau yr Arolygwyr a'r holl arwyddion cyfeirio ayb. Mae eich iechyd a diogelwch yn bwysig, felly gofalwch am eich hun ac eraill ar y safle.

b) **Beiciau** - Mae'r Eisteddfod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch ar y Maes Carafanau. Gosodir tracfyrddau i hwyluso symudiad cerbydau - nid ydynt yn addas i feiciau ac anogir beicwyr i beidio â'u defnyddio. Gwaherddir y defnydd o feiciau yn llwyr ar ôl iddi hi dywyllu. Erfynnir yn daer am gydweithrediad rhieni a gofalwyr i gydymffurfio â'r rheol hon.

c) Cymorth Cyntaf - rhaid cael offer cymorth cyntaf sylfaenol ym mhob carafán a phabell.

ch) Ni chaniateir i neb gysgu mewn car ar y Maes Carafanau.

d) **Bydd hawl parcio UN CERBYD yn unig ger pob carafan.** Gellir talu am ofod yn y maes parcio ychwanegol a leolir yn gyfochrog â'r Maes Carafanau.

dd) Gofynnir i chi beidio â defnyddio eich cerbyd, oni bai bod hynny yn angenrheidiol e.e. tydi defnyddio cerbyd i deithio nôl a blaen i Siop y Maes Carafanau neu'r toiledau DDIM yn ddefnydd angenrheidiol. Gweithredir cyfundrefn 'goleuadau traffig' ar gyfer cerbydau ar y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol, fel â ganlyn:

> **GWYRDD**: Amodau / tywydd yn iawn – Caniateir i chi adael a dychwelyd i'r Maes yn eich cerbyd, os yn angenrheidiol.
> **MELYN**: Amodau / rhagolygon tywydd yn dirywio – Gofynnir i chi beidio symud eich cerbyd, ac eithrio mewn amgylchiadau cwbl angenrheidiol e.e. apwyntiadau meddygol / brys.
> **COCH**: Amodau / rhagolygon tywydd gwael – Gwaherddir unrhyw gerbyd rhag symud. Os byddwch yn mynnu symud eich cerbyd, yna fe'ch gwaherddir rhag dychwelyd tra pery'r rhybudd mewn grym.

Bydd arwydd yn dynodi y sefyllfa / statws gyfredol yn cael ei arddangos ger y Swyddfa / Mynedfeydd. Bydd penderfyniad Arolygwyr y Maes Carafanau a Gwersylla yn derfynol.

**9. Parcio Ymwelwyr**

Dylid cyfeirio unrhyw ymwelwyr i barcio a cherdded o brif feysydd parcio yr Eisteddfod.

**10. Tân**

a) Rhaid cadw gofod digonol rhwng eich uned a'r uned nesaf, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygwyr y Maes Carafanau a Gwersylla.

b) Gosodir bob carafán o fewn 90 medr i bwynt tân. Ym mhob pwynt tân ceir dau ddiffodydd 9 litr dŵr a chloch i'w chanu er mwyn tynnu sylw. Gofynnir i chi ymgyfarwyddo â lleoliad eich pwynt tân agosaf.

c) Diffoddwr tân - rhaid cael diffoddwr tân pwrpasol, o leiaf 900 gram o bowdr. Hefyd, argymhellir yn gryf bod blanced tân pwrpasol ar gael ger yr ardal goginio.

ch) Rhaid cael larwm mwg a charbon monocsid sydd wedi ei brofi yn ddiweddar tu mewn i bob carafan.

d) Ni chaniateir tanau agored ar y Maes, ond caniateir barbiciws pwrpasol. Gwaherddir y defnydd **o farbiciws tu fewn i bebyll, adlenni a charafanau** oherwydd y nwyon peryglus y maent yn creu yn ogystal â'r perygl tân amlwg. Peidiwch a'i defnyddio i wresogi.

dd) Os digwydd tân, symudwch bawb allan yn syth, a rhybuddiwch y bobl yn y carafanau neu bebyll o'ch cwmpas a ffonio 999 neu 112 gan roi Maes Carafanau yr Eisteddfod ym Moduan ger Efailnewydd fel lleoliad.

**11. "Force Majeure"**

Petai angen lleihau'r cyfnod neu ddileu tenantiaeth y Maes Carafanau a Gwersylla Teuluol yn gyfan gwbl oherwydd amgylchiadau tu hwnt i reolaeth yr Eisteddfod (e.e. tywydd garw, clwy amaethyddol ayb), ni wneir unrhyw ad-daliad. Fe'ch cynghorir i sicrhau yswiriant digonol ar gyfer amgylchiadau eithriadol o'r fath.

**12. Yswiriant**

Mae hi yn anghyfreithlon i beidio yswirio carafan os yw yn garafan deithiol neu garafan drelar.  Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau yswiriant addas a digonol ar gyfer eich carafan, adlen a'u cynnwys. Mae gan yr Eisteddfod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Am y wybodaeth ddiweddaraf am
yr Eisteddfod Genedlaethol ewch i'n gwefan
www.eisteddfod.cymru

neu'r dudalen facebook
www.facebook.com/eisteddfod

Swyddfa'r Eisteddfod
40 Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

tocynnau@eisteddfod.cymru